Grŵp Trawsbleidiol ar Dai

Adroddiad Blynyddol

Ionawr 2019

Trosolwg

Mae'r adroddiad blynyddol a ganlyn yn rhoi gwybodaeth am elfennau canlynol gweithgarwch y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai:

1. Aelodaeth a swyddogion
2. Crynodeb o'r cyfarfodydd
3. Cyfarfodydd rhanddeiliaid ychwanegol
4. Adroddiad ariannol

Cynullwyd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai ar gyfer y pumed Cynulliad am y tro cyntaf ym mis Hydref 2016. Yn ogystal â chynrychiolwyr gwleidyddol, mae'r grŵp yn cynnwys aelodau cynrychioliadol o wasanaethau cymorth y trydydd sector, cyrff proffesiynol/masnach ac elusennau cenedlaethol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dai wedi canolbwyntio ar nifer o faterion y manylir arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain wedi cynnwys materion ynghylch cyflenwad adeiladau, perfformiad gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau a ddarperir i bobl hŷn. Yng nghyfarfod olaf 2018, ymunodd y grwpiau â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn yn y drefn honno, gan ganolbwyntio ar addasiadau tai/tai hygyrch.

1. Aelodaeth a swyddogion

Cadeirydd: Mike Hedges AC

Aelodau: David Melding AC, Bethan Jenkins AC**,** Michelle Brown AC

Cymorth ysgrifenyddiaeth: Matt Kennedy, CIH Cymru

Aelodau allanol:

John Puzey, Shelter Cymru
Aaron Hill, Cartrefi Cymunedol Cymru
Clarissa Corbisiero-Peters, Cartrefi Cymunedol Cymru
Douglas Haig, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
Matthew Norman, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
Matt Dicks, CIH Cymru
David Morgan (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru)
David Palmer, Canolfan Cydweithredol Cymru
Casey Edwards, Canolfan Cydweithredol Cymru
Katie Dalton, Cymorth Cymru
Alicja Zalesinska, Tai Pawb
Chris Jones, Gofal a Thrwsio
Clair Stevenson, Gofal a Thrwsio
Robin Staines, Cyngor Sir Caerfyrddin
Simon Inkson, Cyngor Powys
Hew Edgar, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Gwendolyn Sterk, Cymorth i Fenywod
Jenny Bibbings, Shelter
Michelle Wales, Shelter
Neil Howel, Cyngor Torfaen
Stuart Ropke, Cartrefi Cymunedol Cymru
Katie Dalton, Gofal
Liz Withers, Cyngor Ar Bopeth (CAB)
David Lloyd, TPAS Cymru
David Wilton, TPAS Cymru
Juliet Morris, Gofal a Thrwsio Cymru
Hilary Watson, Cymorth i Ferched Cymru
Alex Osmond, The Wallich
Callum Higgins, Cyngor ar Bopeth
Ceri Cryer, Age Cymru
Ewan Hilton, Gofal
Jayne Conlon, Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Mark Bodger, CITB
Mark Harris, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Nick Morris, Crisis UK
Ceri Cryer, Age Cymru

Crynodeb o gyfarfodydd

Cyfarfod 1: 31 Ionawr, 2018

Yn bresennol: Mike Hedges AC (Cadeirydd), David Melding AC, Jenny Rathbone AC, Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC), Jack Sellers (Swyddfa David Melding AC), Eleri Cubbage (Swyddfa Lynne Neagle AC), Chad Richard (Swyddfa Bethan Jenkins AC), Matthew Kennedy (CIH Cymru), Matthew Dicks (CIH Cymru), Aaron Hill (Cartrefi Cymunedol Cymru), Sarah Scotcher (Cartrefi Cymunedol Cymru), David Morgan (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig), Mark Bodger (CITB), Nick Morris (Crisis), Daniel Bellis (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru), Calum Higgins (Cyngor ar Bopeth), David Palmer (Canolfan Cydweithredol Cymru), Casey Edwards (Canolfan Cydweithredol Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), David Lloyd (TPAS Cymru), Juliet Morris (Gofal a Thrwsio Cymru), yr Athro Charles Mynors (Comisiwn y Gyfraith), Ffion Bevan (Comisiwn y Gyfraith), Ceri Cryer (Age Cymru)

Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cytunodd y grŵp ar yr Adroddiad Blynyddol a chadarnhawyd Mike Hedges AC a Matt Kennedy (CIH Cymru) fel y Cadeirydd a’r Ysgrifenyddiaeth yn ôl eu trefn.

Canfyddiadau adroddiad ar gynllunio ar gyfer 20,000 o gartrefi fforddiadwy (Aaron Hill, Cartrefi Cymunedol Cymru)

Tynnodd AH sylw at Gytundeb Tai rhwng Cartrefi Cymunedol Cymru, CLlLC a Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy. Yn y cytundeb, nodwyd tir a chynllunio fel meysydd allweddol i'w hystyried. Roedd AH yn meddwl bod y cytundeb wedi creu amgylchedd cadarnhaol i ategu'r ffordd y mae'r sector yn gweithio.

Dywedodd AH fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar brofiadau'r system gynllunio ac ar gaffael tir – fe’i lluniwyd mewn partneriaeth â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar chwe thema allweddol:

- Adolygu ac ailedrych ar waredu tir cyhoeddus ac ail-alinio i sicrhau bod y broses yn fwy ffafriol i ddatblygu tai fforddiadwy.
- Adolygu arferion adran 106, gan wella'r broses, cynyddu cysondeb a chynnwys cymdeithasau tai'n gynharach.
- Cynyddu adnoddau cynllunio Awdurdodau Lleol sydd wedi cael 53 y cant o ostyngiad ers 2009/10, y mwyaf o unrhyw faes gwasanaeth Awdurdod Lleol.

- Dibynadwyedd y system gynllunio – mae rhai cymdeithasau tai'n gwneud yn dda ar apeliadau, ond mae'r stigma sy'n ymwneud â thai cymdeithasol yn parhau mewn llawer o ardaloedd a gall hyn fod yn rhwystr i ddatblygu.
- Cynyddu'r cyflymder ar y safle gan ganolbwyntio'n benodol ar rôl cyfleustodau a'r angen i Lywodraeth Cymru gael mwy o rôl arweinyddiaeth o ran lleihau oedi yn y system.
- Y system sy'n cael ei harwain gan gynllunio – Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lle na nodwyd Cynlluniau Datblygu Lleol i fodloni cylch pum mlynedd.

Dywedodd Mark Harris fod Lesley Griffiths wedi cyhoeddi datganiad yn annog awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'u Cynlluniau Datblygu Lleol.

Ychwanegodd AH fod yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i gydweithio a nododd Brosiect Gorwelion Tai ac Adroddiad Effaith Economaidd Cartrefi Cymunedol Cymru fel dangosyddion allweddol o awydd y sector i wneud mwy.

Tynnodd MH sylw at y ffaith bod y targed o £20,000 yn cynnwys £6,000 o gymorth i brynu a bod y sector preifat yn cyfrannu tua 20 y cant o'r cyflenwad tai cymdeithasol blynyddol ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yma.

Cod cynllunio newydd i Gymru (Dr Charles Mynors, Comisiwn y Gyfraith)

Cyflwynodd CM y pwnc a thynnodd sylw at y ffaith bod Comisiwn y Gyfraith wedi cael gwahoddiad i ddatblygu cod cynllunio newydd i Gymru. Bydd hyn yn golygu y bydd y gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yn cael ei hadolygu i symleiddio a moderneiddio'r system.

Cyflwynodd CM yr elfennau allweddol sy'n cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad presennol i'r grŵp. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma.

O ran cyrraedd y targed, dywedodd David Wilton fod tenantiaid yn cwestiynu fwyfwy y cynnydd mewn rhent gan nodi y dylai hyn, fel arfer, arwain at gynnydd yn ansawdd y gwasanaeth. Croesawodd AH hyn a nododd yr angen i adolygu'r polisi tai yng Nghymru, yn enwedig gan mai hon yw blwyddyn olaf y polisi rhent presennol – mae'n bwysig taro'r cydbwysedd iawn rhwng refeniw a chyllid.

Tynnodd David Morgan sylw at y rôl y gallai llety myfyrwyr sy'n dod yn wag ei chael pe bai'r llety'n cael ei addasu at ddibenion gwahanol fel tai cymdeithasol/fforddiadwy – ond nododd yr her o ran rheoliadau/safonau adeiladu.

Tynnodd Jenny Rathbone AC sylw at faterion sy'n ymwneud â'r gormodedd disgwyliedig o lety myfyrwyr ac awgrymodd y gallai'r arolygiaeth gynllunio wneud mwy i gyfyngu ar nifer y tai amlfeddiannaeth (HMOs) yng Nghaerdydd.

Cytunodd CM nad yw'r arolygiaeth bob amser yn gydnaws â'r canllawiau sydd wedi ysgogi her farnwrol – er bod rhwystrau ymarferol clir gyda'r llwybr hwn.

Tynnodd MH sylw at y gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n gallu fforddio herio a'r anghysondeb i'r rhai na allant fforddio gwneud hynny – awgrymodd nad rhagor o ddeddfwriaeth yw'r ateb o reidrwydd.

Awgrymodd CM nad y gyfraith sy'n achosi'r problemau – yn aml mae'r problemau'n gudd yn y cefndir.

Tynnodd AH sylw at yr ymchwiliad i dai carbon isel lle mai cynllunio oedd un o'r rhwystrau mwyaf a nodwyd. Nododd CM na fydd y gyfraith yn newid rhai o'r problemau hyn, ond bydd yn helpu i symleiddio'r fframwaith sy'n sail i'r polisi.

Tynnodd Daniel Bellis sylw at y ffaith bod y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl, ar hyn o bryd, yn gweithio i ddarparu rhagor o hyfforddiant i landlordiaid tai amlfeddiannaeth.

O ystyried y diffyg adnoddau i Awdurdodau Lleol, nododd Juliet Morris y gallai llywio cyfnod o newid fod yn fwy problemus. Ymatebodd CM drwy ddweud y dylai'r broses o symleiddio leddfu'r pwysau yn y tymor hwy.

Dywedodd Mark Harris y dylai'r drafodaeth ganolbwyntio ar fwy na rôl y Swyddog Cynllunio a nododd fod angen ystod eang o arbenigwyr medrus ar gyfer y broses, a bod llai a llai ohonynt ar gael.

Gofynnodd JR beth fyddai cylch gwaith yr ymgynghoriad o ran rheoliadau adeiladu. Ymatebodd CM drwy ddweud y byddai ffocws clir ar gynllunio ar wahân i reoliadau adeiladu oherwydd yr angen i gyfyngu ar gwmpas y gwaith.

Gwnaeth CM nodi bod rheoliadau adeiladu'n destun gwaith craffu sylweddol ar hyn o bryd. Ychwanegodd DW fod gobaith, drwy adolygiad Hackett, o weld cynnydd yn y maes hwn.

Cyfarfod 2: 8 Mai, 2018

Yn bresennol: Mike Hedges AC (Cadeirydd), David Melding AC, Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC), Jack Sellers (Swyddfa David Melding AC), Chad Richard (Swyddfa Bethan Sayed AC), Catriona Reckless (Swyddfa Mark Reckless AC), Martin Eaglestone (Swyddfa Dawn Bowden AC), Harriet Protheroe Davies (Swyddfa Joyce Watson AC), Matthew Kennedy (CIH Cymru), Matthew Dicks (CIH Cymru), Catherine May (Tyfu Tai Cymru), John Puzey (Shelter Cymru), Michelle Wales (Shelter Cymru), Martin Asquith (Housemark), Aaron Hill (Cartrefi Cymunedol Cymru), Ceri Meloy (Tai Pawb), Laura Lewis (CITB), David Morgan (Sefydliad

Brenhinol y Syrfewyr Siartredig), Hew Edgar (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig), Nick Morris (Crisis), Tina Reece (Cymorth i Fenywod Cymru), Matthew Norman (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru), Casey Edwards (Canolfan Cydweithredol Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Steffan Evans (TPAS Cymru), Juliet Morris (Gofal a Thrwsio Cymru), Ceri Cryer (Age Cymru)

Canfyddiadau'r arolwg tai (CIH Cymru)

Cyflwynodd Catherine May (CM), o brosiect Tyfu Tai Cymru (TTC), ganfyddiadau o arolwg barn y cyhoedd a oedd yn canolbwyntio ar gofnodi agweddau tuag at dai yng Nghymru. Amlinellodd CM y bydd prosiect TTC yn canolbwyntio ar dair thema:

- Y targed o 20,000 o dai fforddiadwy a'r weledigaeth ar gyfer adeiladu tai yn y tymor hwy
- Cadw tai fel blaenoriaeth ar gyfer llywodraeth leol
- Dangos rôl tai wrth gadw pobl yn iach

Dyma ganfyddiadau'r arolwg yn edrych ar agwedd y cyhoedd tuag at dai:

- Ystyriwyd tai a digartrefedd, ar y cyd, yn un o'r prif flaenoriaethau i'r cyhoedd, yn fwy nag addysg, diogelwch a chyfiawnder troseddol
- Mae 60 y cant o bobl yn teimlo mai'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddarparu cartref fforddiadwy diogel
- Mae problemau o hyd o ran agwedd Nid I'M Bro I (NIMBI) er bod pobl yn cydnabod yr angen i adeiladu mwy o dai cymdeithasol

Mae'r adroddiad a'r dadansoddiad cyfatebol ar gael yma.

Gofynnodd MH a oedd gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran. Atebodd CM fod barn yn rhesymol gyson ar draws grwpiau oedran gyda rhai amrywiadau bach.

Nododd KD ei bod yn destun pryder mai dim ond 72 y cant o bobl oedd yn teimlo y dylai pobl sy'n cysgu ar y stryd gael eu helpu, gan dynnu sylw at her wirioneddol i'r ffordd y mae cymdeithas yn ystyried digartrefedd.

O ran yr adolygiad tai, dywedodd DM fod rhaid i hyn ystyried tir a sut y priodolir gwerth i dir – problem wirioneddol ynghylch cost tir. Ychwanegodd JP fod cost tir yn broblem pan oedd yn gysylltiedig â seilwaith trafnidiaeth – cytunodd MH, gan ddweud bod cost y seilwaith yn dod o bwrs y wlad.

Gorwelion Tai a'r adolygiad polisi tai (Cartrefi Cymunedol Cymru)

Rhoddodd AH rywfaint o gyd-destun i'r grŵp, gan nodi bod yr holl bartïon wedi dangos cefnogaeth i ymgyrch Cartrefi i Gymru, y targed 20,000 o gartrefi fforddiadwy a'r

Cytundeb Cyflenwad Tai. Nododd AH yr her barhaus o ran newid yn y boblogaeth, gan nodi y bydd rhywun dros 65 oed yn bennaeth ar 54 y cant o aelwydydd erbyn 2036, ac y bydd person sengl dros 85 oed yn meddiannu 100,000 o aelwydydd. Adroddodd AH ar y drafodaeth barhaus ag aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru a'u Panel Herio Allanol. Nododd AH fod awydd amlwg gan aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru i adeiladu mwy o dai cymdeithasol.

Gweledigaeth Gorwelion Tai yw Cymru lle mae tai'n hawl sylfaenol i bawb – a gefnogir gan nod i'r sector adeiladu 75,000 o gartrefi dros yr 20 mlynedd nesaf. Arweiniodd hyn, yn ei dro, at alw am adolygiad polisi tai arall.

Ychwanegodd AH mai'r cynllun parhaus oedd canolbwyntio ar grantiau, rhenti a safonau gan gydnabod bod cyllid cyhoeddus yn amlwg yn dynn.

Ceir rhagor o wybodaeth am weledigaeth Gorwelion Tai Cartrefi Cymunedol Cymru yma.

Gofynnodd DR am addasiadau a chefnogaeth i'r agenda hygyrchedd. Dywedodd AH y byddai safonau'n ystyried addasiadau a darpariaeth cartrefi hygyrch. Nododd JM y dylid codi pryderon gan mai ychydig o gynnydd a wnaed yn y maes hwn ers y gwaith a wnaed gan Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar ddarparu tai i boblogaeth sy'n heneiddio.

Tynnodd MH sylw at y twf enfawr a gafwyd o'r blaen mewn tai cyngor yn y 1950au a'r 60au. Eglurodd AH y byddai'r targed 75,000 yn cyfateb i 90 y cant o amcangyfrif uwch y diweddar Dr Holman ar angen tai.

Tynnodd CM sylw at yr angen i ystyried ymhellach ddatblygu a defnyddio cofrestrau tai hygyrch. Cytunodd DM, gan ychwanegu bod her wirioneddol ynghylch tai wedi'u haddasu yn y sector preifat – lle byddai'r posibilrwydd o ehangu'r system grantiau'n dod ar gost uwch i'r trethdalwr. Ychwanegodd DM fod angen trafodaeth fwy cynhwysfawr ynghylch yr economi sylfaenol yn sicrhau cyswllt cryf â busnesau bach a chanolig a'r effaith ar fentrau lleol ac adfywio cymunedau.

Nododd SE fod tenantiaid yn pryderu'n fwyfwy am renti a thaliadau gwasanaeth. Nododd AH fod ffocws mawr ar fforddiadwyedd yn y setliad rhent hwn a'i bod yn allweddol bod hyn yn datblygu ymhellach drwy'r adolygiad. Ychwanegodd MH na roddwyd gwybod i lawer o'r preswylwyr am y gwerth am arian ynghylch taliadau gwasanaeth.

***Canfyddiadau astudiaeth Yn Gaeth ar y Stryd* (Shelter Cymru)**

Cyflwynodd JP yr adroddiad a luniwyd mewn partneriaeth â The Wallich. Siaradodd llunwyr yr adroddiad â 100 o bobl sy'n byw ar y stryd yng Nghaerdydd, Wrecsam ac

Abertawe, gan geisio canfod y rhesymau sydd y tu ôl i'w sefyllfa a'r rhwystrau i ddianc bywyd ar y stryd.

Ran amlaf o lawer, roedd pobl yn beio'u hunain am eu sefyllfa a nododd JP y cipolwg seicolegol. Adlewyrchodd yr ymchwil yr angen i ddeall yn well pam mae rhai pobl a gafodd brofiadau gwahanol yn byw ar y stryd, ond nid eraill.

Canfu'r adroddiad fod y rhesymau i bobl aros ar y stryd yn cynnwys diffyg llety dros dro ac oherwydd yr ystyrir bod rhywfaint o lety'n anniogel neu'n amhriodol. Nododd yr adroddiad hefyd y gallai fod yn anodd dianc bywyd ar y stryd ar ôl mynd yn ddigartref oherwydd system ddryslyd a chymhleth, anghenion heb eu diwallu, agweddau gweithwyr proffesiynol ac 'aildrawmateiddio'.

Dywedodd DR fod cynnydd hefyd ymhlith pobl sy'n cysgu ar y stryd y tu allan i'r tair dinas, gan ofyn a allai diwygio lles fod yn sbarduno rhywfaint o hyn. Cytunodd JP y bu twf sylweddol mewn mannau eraill. Dywedodd CM y byddai'r adroddiad yn bwerus iawn wrth lywio'r naratif cyffredinol ac wrth lywio arfer awdurdodau lleol.

Ychwanegodd KD ei bod yn anodd i rai gwasanaethau, ar hyn o bryd, gael gafael ar arian grant i atal digartrefedd ac anogodd fwy o waith craffu ar sut y caiff yr arian hwn ei wario.

Nododd MH fod problem amlwg ynghylch pobl 'heb gartref sefydlog'. Ychwanegodd JP y gallai pobl gael trafferth eirioli drostynt eu hunain. Ychwanegodd CC fod iaith hygyrch yn amlwg yn rhwystr mewn rhai amgylchiadau.

Cyfarfod 3: 17 Hydref 2018

Yn bresennol: Mike Hedges AC (Cyd-gadeirydd), Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd), Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC), Michelle Brown AC, David Melding AC, Janet Finch-Saunders AC, George Jones (Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn), Rhian Davies (Anabledd Cymru), Valerie Billingham (Age Cymru), Louise McGrath (Cyngor Cymru i Bobl Fyddar), Callum Hughes (Conffederasiwn GIG Cymru), Zoe Richards (Anabledd Dysgu Cymru), Matt Dicks (CIH Cymru), Catherine May (CIH Cymru), Sandra Burton (Disability Can Do), Iwan Williams (Gofal Cymdeithasol Cymru), Tracey Blockwell (Disability Advice Project, Sir Fynwy), Claire Stevenson (Gofal a Thrwsio Cymru), Laura Lewis (CITB), Martyn Jones (Anabledd Dysgu Cymru), Selina Moyo (Cartrefi Cymunedol Cymru), Alex Osmond (The Wallich), Pete Lomax (Housemark), John Puzey (Shelter Cymru), Adele Battaglia, Mark Wilson.

Darparu tai i boblogaeth sy'n heneiddio

Cafwyd cyflwyniad gan yr Athro Judith Phillips (JP), Dirprwy Brifathro, Prifysgol Stirling, ar ddarparu tai i boblogaeth sy'n heneiddio. Atodir copi o'r cyflwyniad.

Cafwyd trafodaeth, pan gododd y pwyntiau a ganlyn:

- Dylai'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y Llywodraeth, adeiladwyr, datblygwyr ac eraill, fod yn gweithio i ddatblygu'r agenda hon;
- Ar hyn o bryd, mae cymhellion gwrthnysig i ddatblygwyr adeiladu cartrefi nad ydynt yn briodol i bobl hŷn neu bobl anabl, neu'n fforddiadwy i bobl fwy cefnog yn unig. Fodd bynnag, mae McCarthy a Stone bellach yn edrych ar ben isaf y farchnad dai arbenigol;
- Gallai Cymru fod ar flaen y gad wrth ddatblygu atebion technolegol i broblemau tai a gofal cymdeithasol. O dan y Strategaeth Ddiwydiannol, gallai diwydiant helpu i ddiogelu stoc dai newydd at y dyfodol;
- Mae cartref yn lle ystyrlon, ag agweddau emosiynol a chymdeithasol; nid mater o frics a morter yn unig ydyw;
- Mae tai bellach yn rhan ganolog o ddull gweithredu'r Llywodraeth o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y Gronfa Gofal Canolraddol, tai yw'r ateb i broblemau gofal canolraddol. Mae gan y Comisiynydd Pobl Hŷn gefndir tai;
- Gellid defnyddio unrhyw ardoll gofal cymdeithasol neilltuedig i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol;
- Gofynnodd David Melding AC (DM) a gynhaliwyd asesiad o'r bwlch rhwng y galw a'r cyflenwad tai addas i bobl hŷn. Dywedodd JP nad oedd data ar gael. Fodd bynnag, dyluniad cyffredinol a thai hyblyg i ddiwallu anghenion pob cenhedlaeth oedd y broblem;
- Gofynnodd DM a oedd symud i gartrefi llai o faint yn opsiwn da. Dywedodd JP fod angen mwy o ddata, ond mai mater o symud i gartrefi o'r maint cywir ydyw, yn hytrach na symud i gartrefi llai o faint, er mwyn creu lle, e.e. i ofalwyr sy'n byw gyda'u cleientiaid (neu rywle i gadw robot gofal hyd yn oed) yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae angen i bobl hŷn allu dewis o bob math o opsiynau. Adeiladwyd nifer o gartrefi dethol ar gyrion trefi a dinasoedd, nid yn eu canol, gyda mynediad at eu cyfleusterau;
- Tynnodd Lynda Wallis (LW) sylw at y diffyg tai cyngor sydd ar gael i symud i gartrefi llai o faint. Dywedodd JP y gallai cynghorau gyflwyno addasiadau technolegol, e.e. synwyryddion, a fyddai'n golygu bod y tai cyngor presennol yn ateb y gofyn yn well;
- Dywedodd JP fod y Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cynnwys safonau ar gyfer cartrefi gydol oes;
- Nid oes polisi cenedlaethol i helpu gyda thai sydd mewn cyflwr gwael. Dywedodd JP fod ar Gymru angen cymhellion ar gyfer dyluniad arloesol, ond nad oes neb, hyd yn hyn, am ystyried hyn;
- Dywedodd Janet Finch-Saunders AC (JFS) mai achos rheolaidd gyda'i hetholwyr hi yw bod pobl hŷn yn cynnal ac yn cadw eu cartrefi nes i un o'r cwpl hŷn farw. Ar ôl hynny, ni chaiff y cartref ei gynnal a'i gadw mwyach ac ni

all y person sydd ar ôl gael mynediad at gynllun tai â chymorth. Mae'n haws i'r cynlluniau ddewis y bobl hŷn fwyaf abl. Dywedodd JP ei bod yn fwy diogel a chost-effeithiol i'r bobl fwy anabl fod mewn tai â chymorth;

- Dywedodd Mark Isherwood AC (MI) fod y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn taeru mai dewis defnyddwyr yw'r sbardun ar gyfer y math o dai a adeiledir, a gofynnodd sut rydym yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i gynllunio ar gyfer bywyd diweddarach. Soniodd fod nifer o gynlluniau ar gael sy'n cynnig gofal ychwanegol ar raddfa lai (extra-care lite) a gofynnodd a wnaed unrhyw waith i weld sut a lle roedd arfer da wedi'i sefydlu a'i rannu. Dywedodd JP fod hyn wedi'i wneud yn yr Alban;
  mae llawer o grwpiau yr oedd arnynt angen enbyd am dai, ond roeddent yn ansicr y byddai'r farchnad yn ymateb i'r angen am gartrefi gydol oes heb ofyniad statudol. Dywedodd JP fod Cymru ar flaen y gad o ran arloesi yn y diwydiant adeiladu;

- Gofynnodd Matt Dicks am ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau o ran tai. Dywedodd JP fod angen cymell prynwyr tro olaf gymaint â phrynwyr tro cyntaf.

Addasiadau a hygyrchedd

Cafwyd cyflwyniad gan Geraint Rees, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, ar dai a phobl anabl – argyfwng cudd Cymru. Atodir copi o'r cyflwyniad.

Cafwyd trafodaeth, pan gododd y pwyntiau a ganlyn:

- Dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru oedd wedi gosod targed ar gyfer darparu cartrefi hygyrch ac addasadwy. Yn yr Alban, roedd 14 o'r 16 o feini prawf cartrefi gydol oes wedi'u cynnwys mewn rheoliadau adeiladu, ac mae llawer o waith wedi'i wneud yn Llundain i weithredu'r meini prawf. Roedd y diffyg data ar angen tai pobl anabl yn golygu bod Awdurdodau Lleol (ALlau) yn cael trafferth herio datblygwyr. Mae gan ALlau ddiffyg hyder yn eu gwybodaeth am eu stoc dai bresennol, sy'n arwain at heriau wrth baru pobl anabl â chartrefi addas yn effeithiol;
- Mae gan bobl sy'n byw gydag anableddau ddiffyg hyder yn eu gwybodaeth am hawliau tenantiaid ac nid oes llawer o gymorth i landlordiaid. Roedd y Comisiwn yn lansio canllaw i bobl anabl amlinellu eu hawliau a phecyn cymorth i ALlau wella'r broses o wneud penderfyniadau a gwella arferion
- Dywedodd Mark Wilson (MW) fod pobl yn aml yn ddigartref oherwydd anabledd a heneiddio, ond nad oedd llawer o bobl yn sylweddoli hyn. Mae diffyg tir datblygu sy'n addas ar gyfer tai yng Nghaerdydd a'r Fro. Nid yw llawer o gymunedau sipsiwn a theithwyr am gael tai. A ddylem gynnig

dewisiadau i bobl ai peidio? Gallai dewis arwain at ganlyniadau anfwriadol. O ystyried bod y boblogaeth yn heneiddio, a ddylem newid ein hathroniaeth? Dywedodd George Jones y dylai pobl anabl fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n arwain at y dewisiadau sydd ar gael;

- Mae'n anodd annog landlordiaid ac asiantaethau gosod i wneud addasiadau. Mae sicrhau bod y stoc dai'n addasadwy ac yn cael ei diogelu at y dyfodol yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Cymru sy'n heneiddio. Roedd pobl yn cael eu rhoi mewn llety rhent preifat oherwydd bod cyn lleied o stoc dai ar gael;
- Roedd Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi fframwaith ar gyfer byw'n annibynnol. Roedd angen i dai i bobl anabl fod yn uwch ar yr agenda.

Casgliad a chamau

Diolchodd MH ac MI i bawb am ddod i'r cyfarfod a dywedodd ei bod yn bwysig iawn cael cyfarfodydd ar y cyd, yn hytrach na seilos traddodiadol.

Dywedodd MI y defnyddir model meddygol o anabledd yn rhy aml ar gyfer angen pobl am dai, ond yn aml nad oedd gan eiriolwyr a gweithwyr allgymorth ALl eu hunain arbenigedd mewn cyflyrau penodol.

Yna, gadawodd Aelodau'r Cynulliad y cyfarfod i fynd i sesiwn y Cyfarfod Llawn, ond anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i barhau â'r drafodaeth. Parhaodd y drafodaeth am gyfnod byr wedyn, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- mae data am angen ar gael ar restrau aros am dai;
- roedd y sefydliadau o gwmpas y ford yn ddigyswllt o hyd yn eu dulliau gweithredu, ac roedd angen dod ynghyd y tu allan i gyfarfodydd y grwpiau trawsbleidiol er mwyn datblygu dull gweithredu cyfunol;
- cytunodd tair ysgrifenyddiaeth y grwpiau trawsbleidiol i gydweithio i lunio negeseuon allweddol i'w rhoi i Aelodau'r Cynulliad. Byddai hyn yn cynnwys agenda Cenedlaethau'r Dyfodol a'r adfywiad economaidd;
- dywedodd Anabledd Cymru fod dull gweithredu un ateb sy'n addas i bawb o ran tai o hyd, a diffyg personoli;
- mae cymhelliant i'r sector tai gael ei gynrychioli ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol;
- roedd pryderon ynghylch cyflwyno Credyd Cynhwysol a'i effaith ar bobl a thai. Mae'n debygol y bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn gweithio arno dros y blynyddoedd nesaf.

3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Yr Athro Charles Mynors, Comisiwn y Gyfraith (31 Ionawr)

- Yr Athro Judith Phillips, Dirprwy Brifathro, Prifysgol Stirling (17 Hydref)

- Geraint Rees, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (17 Hydref)

Datganiad Ariannol Blynyddol

[31/01/2018]

Grŵp Trawsbleidiol ar Dai

Cadeirydd: Mike Hedges AC

Ysgrifennydd: Matt Kennedy, CIH Cymru

Treuliau'r Grŵp	Dim	£0.00
Cost yr holl nwyddau	Ni phrynwyd nwyddau.	£0.00
Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol	Ni chafwyd buddiannau.	£0.00
Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall	Ni chafwyd cymorth ariannol.	£0.00

Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch

Talodd CIH Cymru am yr holl luniaeth.

Dyddiad	**Disgrifiad o'r darparwr a'i enw**	**Cost**
17/10/2017	Bwffe – Gwasanaeth Arlwyo Charlton House	£175.20
31/01/2018	Bwffe – Gwasanaeth Arlwyo Charlton House	£205.20
08/05/2018	Bwffe – Gwasanaeth Arlwyo Charlton House	£147.90
17/10/2018	Bwffe – Gwasanaeth Arlwyo Charlton House	£225.48
17/10/2018	Treuliau siaradwyr	£72.10
	Cyfanswm y gost	**£825.88**